ATODLEN 7

PARTNERIAETHAU

## RHAN 5

TRAFODIADAU SY'N YMWNEUD Â THROSGLWYDDIADAU O BARTNERIAETH

*Trosglwyddo buddiant trethadwy o bartneriaeth: cyffredinol*

21 (1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys pan drosglwyddir buddiant trethadwy—

(a) o bartneriaeth i berson sy'n un o'r partneriaid neu a fu'n un o'r partneriaid, neu

(b) o bartneriaeth i berson sy'n gysylltiedig â pherson sy'n un o'r partneriaid neu a fu'n un o'r partneriaid.

(2) Cymerir bod y gydnabyddiaeth drethadwy ar gyfer y trafodiad (yn ddarostyngedig i baragraff 30) yn hafal i—

$$GM \times (100 - SCI)\%$$

Ffigwr 10

pan fo—

GM yn werth marchnadol y buddiant a drosglwyddir, ac

SCI yn swm y cyfrannau is.

(3) Mae paragraff 22 yn darparu ar gyfer pennu swm y cyfrannau is.

(4) Mae Rhan 7 yn gymwys os yw'r holl gydnabyddiaeth drethadwy ar gyfer y trafodiad, neu ran ohoni, ar ffurf rhent.

(5) At ddibenion y paragraff hwn, mae eiddo a oedd yn eiddo'r bartneriaeth cyn i'r bartneriaeth gael ei diddymu neu cyn iddi beidio â bodoli fel arall i'w drin fel pe bai'n parhau i fod yn eiddo'r bartneriaeth hyd nes y caiff ei ddosbarthu.

(6) Mae'r paragraff hwn yn cael effaith yn ddarostyngedig i unrhyw ddewis o dan baragraff 36.